

Galwad Duw
Called by God

Esgobaeth Bangor
The Diocese of Bangor

Tyfu gweinidogaethau newydd yn Esgobaeth Bangor

Growing new ministries in the Diocese of Bangor

Cyflwyniad
Introduction

Mae Duw yn galw bob un ohonom i wasanaethu. Rydym i gyd yn cael ein galw i addoli Duw, i dyfu'r Eglwys, ac i garu'r byd. Rydym i gyd yn cael ein galw i lewyrchu goleuni gobaith, i ymgnawdoli hygrededd ffydd, ac i orlifo â dyfroedd cariad dwyfol. Rydym i gyd yn cael ein galw i fyw bywyd cyflawn yn ei lawnder. Rydym i gyd yn cael ein galw i fyw bywyd ar batrwm Crist yng ngwasanaeth Duw.

Mae Duw hefyd yn galw bob un ohonom i wasanaethu'r Eglwys. Gelwir rhai ohonom i wasanaethu'r Eglwys mewn ffyrdd penodol drwy weinidogaethau unigryw. Sut y gallai Duw fod yn eich galw chi i wasanaethu drwy weinidogaethau'r Eglwys yng Nghymru?

Mae yna nifer o wahanol ffyrdd y gallwch chi wasanaethu'r Eglwys trwy weinidogaethau comisiynedig a thrwyddedig yr Eglwys yng Nghymru. Mae'r llyfryn hwn yn cynnig trosolwg o'r gweinidogaethau hyn. Wrth i chi ei ddarllen a myfyrio arno, holwch Dduw, yn eich calon: 'A oes rhywbeth yma i mi?'

Os ydych am archwilio'n bellach yn sgil hynny, siaradwch ag Arweinydd eich Ardal Weinidogaeth, neu cysylltwch â Chyfarwyddwr Meithrin Disgyblion a Galwedigaethau'r Esgobaeth.

Mae tyfu gweinidogaethau newydd yn un o'n canolbwyntiau esgobaethol allweddol. Gweddïwch, felly, y bydd llawer yn clywed galwad Duw ledled yr esgobaeth yn ystod y misoedd a'r blynyddoedd nesaf, i'n cynorthwyo ni oll i ddilyn Crist ac i rannu ei newyddion da.

God calls all of us to serve. We are all called to worship God, to grow the Church, and to love the world. We are all called to be the light of hope, to be an example of faith, and to be a source of love. We are all called to be fully human and fully alive. We are all called to live Christ-like lives in God's service.

God also calls all of us to serve the Church. Some of us are called to serve the Church in particular ways through distinctive ministries. How might God be calling you to service through the ministries of the Church in Wales?

There are a number of different ways in which you can serve the Church through the commissioned and licensed ministries of the Church in Wales. This booklet offers an overview of these ministries. As you read it and reflect upon it, ask God, in your heart, 'Is there something here for me?'

If you want to explore further anything raised in this booklet, please talk to your Ministry Area Leader, or contact the Diocesan Director of Discipleship & Vocations.

Growing new ministries is one of our three key diocesan priorities. Pray, therefore, that many will hear God's call across the diocese over coming months and years, to aid us all to follow Christ more closely and to share his good news.

Gweinidogaethau Comisiynedig o fewn Tîm
Commissioned Team Ministries

Mae Gweinidogaethau Comisiynedig o fewn Tîm yn rhoi cyfle i wasanaethu law yn llaw ag eraill o fewn yr Ardal Weinidogaeth. Mae chwe math gwahanol o Weinidogaethau Comisiynedig o fewn Tîm, ledled bywyd, cenhadaeth a thystiolaeth yr Eglwys. Maent yn mynnu ymrwymiad o ran amser ac egni, ond gellir hefyd eu harddel yn gyfforddus law yn llaw ag ymrwymiadau eraill, a dyma'r cam cyntaf mewn gweinidogaethu ffurfiol.

Commissioned Team Ministries provide an opportunity to serve alongside others within the Ministry Area. There are six different types of Commissioned Team Ministries, ranging across different areas of the Church's life, mission and witness. They require a commitment of time and energy, but they can also sit comfortably alongside other commitments, and constitute a first step into formal ministry.

Manylion...

Mae Gweinidogaethau Comisiynedig o fewn Tîm yn weinidogaethau achrededig, cyhoeddus a chynrychioliadol o fewn yr Eglwys yng Nghymru. Gofynnir i bawb sy'n dirnad galwedigaeth i weinidogaeth gyhoeddus a chynrychioliadol ddatgan yn eu bywydau mai disgybl i Grist ydynt. Wrth ddirnad galwedigaeth i weinidogaeth benodol, mae yna hefyd ofynion penodol sy'n ategu galwedigaeth Gristnogol holl bobl Dduw: er enghraifft, os ydych yn synhwyro galwad i fod yn aelod o Dîm Gofal Bugeiliol, a oes gennych glust i wrando a chalon sy'n effro i lawenydd a gofidiau eraill, a sut y gall eraill adnabod hynny yn eich byw a'ch bod? Caiff galwedigaethau i'r gweinidogaethau hyn eu dirnad oddi mewn i'r Ardal Weinidogaeth, gan barchu'r cyd-destunau lleol y byddant yn eu gwasanaethu.

In more detail...

Commissioned Team Ministries are accredited, public, representative ministries of the Church in Wales. All those called to public, representative ministry are asked to show that their lives are shaped by their discipleship. In discerning a call to a particular ministry, there are also specific requirements that complement the Christian discipleship demanded of us all: for example, if you sense a call to be a member of a Pastoral Care Team, do you have a listening ear and a heart for the joys and sorrows of others, and how can others see this at work in your life? A call to these ministries is discerned within the Ministry Area, paying attention to the local contexts in which those exercising these ministries will serve. Preparatory formation and training for these ministries takes place within

Caiff ffurfiant a hyfforddiant paratoadol ar gyfer y gweinidogaethau hyn ei ddarparu o fewn yr Ardal Weinidogaeth neu'r Synod, gyda chymorth Athrofa Padarn Sant. Comisiynir y sawl sydd wedi eu galw a'u derbyn i'r gweinidogaethau hyn gan Arweinydd yr Ardal Weinidogaeth, yn sgil cadarnhád Cyngor yr Ardal Weinidogaeth. Bydd penodiadau i Weinidogaethau Comisiynedig o fewn Tîm am flwyddyn i ddechrau, ac ar ôl hynny am dymhorau o 3 blynedd, sy'n adnewyddadwy gyda chaniatâd Arweinydd yr Ardal Weinidogaeth a Chyngor yr Ardal Weinidogaeth.

the Ministry Area or the Synod, with support from St Padarn's Institute. Those called and accepted to these ministries are commissioned by the Ministry Area Leader, following ratification by the Ministry Area Council. Appointments to Commissioned Team Ministries will last initially for 1 year, and thereafter for 3 year terms, renewable with the consent of the Ministry Area Leader and the Ministry Area Council.

Y Tîm Arwain Addoliad

Oddi mewn i'r weinidogaeth a ymddiriedwyd gan Grist i'w Eglwys, mae aelodau'r Tîm Arwain Addoliad yn mynegi cyfranogiad holl bobl Crist yn addoliad yr Eglwys. Maent yn gweithio ar y cyd gyda, ac o dan gyfarwyddyd, gweinidogion eraill, yn enwedig Darllenwyr a chlerigion. Bydd y rhai a elwir i'r weinidogaeth hon yn gallu darparu tystiolaeth o ddoniau ar gyfer y gwaith hwn, megis hunan-hyder priodol mewn cyd-destunau cyhoeddus a sensitifrwydd mewn gweddi gyhoeddus.

The Worship Leading Team

Within the ministry entrusted by Christ to his Church, members of the Worship Leading Team express the participation of all Christ's people in the Church's worshipping life. They are to work in collaboration with and under the direction of other ministers, particularly Readers and clergy. Those called to this ministry will be able to show evidence of a gifting for this work, such as appropriate self-confidence in public settings and sensitivity in public prayer.

Y Tîm Addysgu

Oddi mewn i'r weinidogaeth a ymddiriedwyd gan Grist i'w Eglwys, gelwir aelodau'r Tîm Addysgu yn mynegi galwedigaeth holl bobl Dduw i ddyfnháu eu ffydd. Maent yn gwneud hyn drwy atgyfnerthu a galluogi cynnydd mewn dysg a dealltwriaeth o fewn yr eglwys leol. Maent yn gweithio ar y cyd gyda, ac o dan gyfarwyddyd, gweinidogion eraill, yn enwedig Darllenwyr a chlerigion.

The Teaching Team

Within the ministry entrusted by Christ to his Church, members of the Teaching Team are called to express the role of the people of God in deepening faith. They do this by focusing and enabling growth in knowledge and study within the local church. They work in collaboration with and under the direction of other Ministers, particularly Readers and clergy.

Y Tîm Gofal Bugeiliol

Oddi mewn i'r weinidogaeth a ymddiriedwyd gan Grist i'w Eglwys, mae aelodau'r Tîm Gofal Bugeiliol yn cael eu comisiynu i fynegi galwedigaeth holl bobl Crist i rannu cariad a dangos consyrn dros eraill ar batrwm Crist ei hun. Maent yn gwneud hynny drwy ymgymryd â thasgau bugeiliol penodol, y tu mewn a thu allan i'r eglwys. Maent yn gweithio mewn cydweithrediad ac o dan gyfarwyddyd gweinidogion eraill, yn enwedig Gweinidogion Bugeiliol trwyddedig a chlerigion. Bydd y rhai a elwir i'r weinidogaeth hon yn gallu darparu tystiolaeth o ddoniau ar gyfer y gwaith hwn, megis y gallu i wrando'n ofalus, sensitifrwydd wrth weddïo gydag eraill a throstynt, a'r gallu i barchu cyfrinachedd.

The Pastoral Care Team

Within the ministry entrusted by Christ to his Church, members of the Pastoral Care Team are commissioned to express the work of all Christ's people in showing Christlike love and concern for others. They do so by undertaking particular pastoral tasks, inside and outside the church. They work in collaboration with and under the direction of other ministers, particularly Licensed Pastoral Ministers and clergy. Those called to this ministry will be able to show evidence of a gifting for this work, such as an ability to listen well, sensitivity in praying with and for others, and the ability to keep confidences.

Y Tîm Plant, Ieuentid a Theuluoedd

Oddi mewn i'r weinidogaeth a ymddiriedwyd gan Grist i'w Eglwys, mae aelodau'r Tîm Plant, Ieuentid a Theuluoedd yn mynegi galwedigaeth holl bobl Crist i ofalu am deuluoedd a phob cenhedlaeth newydd. Maent yn gwneud hyn drwy atgyfnerthu a galluogi gwaith gyda phlant, teuluoedd a phobl ifanc y tu mewn a thu allan i'r eglwys. Maent yn gweithio mewn cydweithrediad ag ac o dan gyfarwyddyd gweinidogion eraill, yn enwedig Gweinidogion Teulu a chlerigion. Bydd y rhai a elwir i'r weinidogaeth hon yn gallu darparu tystiolaeth o ddoniau ar gyfer y gwaith hwn, megis empathi a sensitifrwydd wrth ddelio ag anghenion penodol plant a phobl ifanc, a'r gallu i wneud cysylltiadau rhwng yr Efengyl a bywydau'r bobl y maent yn eu gwasanaethu.

The Children, Youth & Families Team

Within the ministry entrusted by Christ to his Church, members of the Children, Youth & Families Team express the role of all Christ's people in caring for families and each new generation. They do this by focusing and enabling work with children, families and young people inside and outside the church. They work in collaboration with and under the direction of other ministers, particularly Family Ministers and clergy. Those called to this ministry will be able to show evidence of a gifting for this work, such as empathy and sensitivity in dealing with the particular needs of children and young people, and the ability to make connections between the Gospel and the lives of the people they serve.

Y Tîm Efengylu

Oddi mewn i'r weinidogaeth a ymddiriedwyd gan Grist i'w Eglwys, mae aelodau'r Tîm Efengylu yn mynegi galwedigaeth holl bobl Crist i rannu'r ffydd a cheisio achub y colledig. Maent yn gwneud hyn drwy ymgymryd â thasgau efengylol a mentrau datblygu ffydd penodol, y tu mewn a'r tu allan i'r eglwys. Maent yn gweithio mewn cydweithrediad â ac o dan gyfarwyddyd gweinidogion eraill, yn enwedig Efengylyddion a chlerigion. Bydd y rhai a elwir i'r weinidogaeth hon yn gallu darparu tystiolaeth o ddoniau ar gyfer y gwaith hwn, megis awydd cryf i ymestyn allan â chariad Duw, a hyfdra a sensitifrwydd priodol wrth gyhoeddi'r Efengyl.

The Evangelism Team

Within the ministry entrusted by Christ to his Church, members of the Evangelism Team express the role of all Christ's people in sharing faith and seeking and saving the lost. They do this by undertaking particular evangelistic and faith development tasks, inside and outside the church. They work in collaboration with and under the direction of other ministers, particularly Evangelists and clergy. Those called to this ministry will be able to show evidence of a gifting for this work, such as a strong desire to reach out to others with the love of God, and an appropriate boldness and sensitivity in proclaiming the Gospel.

Y Tîm Arloesi

Oddi mewn i'r weinidogaeth a ymddiriedwyd gan Grist i'w Eglwys, mae aelodau'r Tîm Arloesi yn mynegi galwedigaeth holl bobl Crist i ymestyn allan y tu hwnt i ffiniau arferol yr eglwys. Maent yn gwneud hyn drwy gynnal mentrau all-gyrhaeddol penodol, drwy adeiladu cymunedol a thrwy blannu eglwysi, yn bennaf er budd y rhai nad ydynt yn aelodau o unrhyw eglwys eto. Maent yn gweithio mewn cydweithrediad ag ac o dan gyfarwyddyd gweinidogion eraill, yn enwedig Gweinidogion Arloesol a chlerigion. Bydd y rhai a elwir i'r weinidogaeth hon yn gallu darparu tystiolaeth o ddoniau ar gyfer y gwaith hwn, megis awydd cryf i ymestyn allan â chariad Duw, a hyfdra a sensitifrwydd priodol wrth gyhoeddi'r Efengyl.

The Pioneering Team

Within the ministry entrusted by Christ to his Church, members of the Pioneering Team express the role of all Christ's people in reaching out beyond the normal boundaries of church. They do this by undertaking particular outreach, community building and church planting tasks, primarily for the benefit of those who are not yet members of any church. They work in collaboration with and under the direction of other ministers, particularly Pioneers and clergy. Those called to this ministry will be able to show evidence of a gifting for this work, such as a strong desire to reach out to others with the love of God, and an appropriate boldness and sensitivity in proclaiming the Gospel.

Gweinidogaethau Trwyddedig
Licensed Ministries

Mae Gweinidogaethau Trwyddedig yn rhoi cyfle i rannu mewn arweinyddiaeth ledled bywyd, cenhadaeth a thystiolaeth yr Eglwys. Mae Gweinidogaethau Ordeiniedig hanesyddol yr Eglwys – Diacon, Offeiriad ac Esgob – yn Weinidogaethau Trwyddedig. Mae pump o Weinidogaethau Trwyddedig eraill – gan gynnwys gweinidogaeth sefydledig y Darllenydd – yn rhoi cyfle i wasanaethu mewn meysydd neilltuol. Mae Gweinidogaethau Trwyddedig yn mynnu ymrwymiad sylweddol o ran amser ac egni, gan gynnwys cyfnod o ddirnadaeth a pharatoi.

Licensed Ministries provide an opportunity to share in the leadership of an area of the Church's life, mission and witness. The Church's historic orders of Ordained Ministry – Deacon, Priest and Bishop – constitute three Licensed Ministries. Five other Licensed Ministries – including the established ministry of Reader – provide an opportunity to serve in a distinctive field. Licensed Ministries require a significant commitment of time and energy, including a period of discernment and preparation.

Manylion...

Mae Gweinidogaethau Trwyddedig yn weinidogaethau achrededig, cyhoeddus a chynrychioliadol o fewn yr Eglwys yng Nghymru. Gofynnir i bawb sy'n dirnad galwedigaeth i weinidogaeth gyhoeddus a chynrychioliadol ddatgan yn eu bywydau mai disgybl i Grist ydynt. Wrth ddirnad galwedigaeth i weinidogaeth benodol, mae yna hefyd ofynion penodol sy'n ategu galwedigaeth Gristnogol holl bobl Dduw: er enghraifft, os ydych yn synhwyro galwad i fod yn Ddarllenydd, a oes gennych allu arbennig i gyfathrebu, a sut y gall eraill adnabod hynny yn eich byw a'ch bod? Caiff galwedigaeth i'r

In more detail...

Licensed Ministries are accredited, public, representative ministries of the Church in Wales. All those called to public, representative ministry are asked to show that their lives are shaped by their discipleship. In discerning a call to a particular ministry, there are also specific requirements that complement the Christian discipleship asked of us all: for example, if you sense a call to be a Reader, do you have a talent for communication, and how can others see this at work in your life? A call to these ministries is discerned through local and national Discernment Boards and confirmed by the Bishop. Preparatory

gweinidogaethau hyn eu dirnad trwy Fyrddau Dirnad lleol a chenedlaethol a'u cadarnhau gan yr Esgob. Caiff ffurfiant a hyfforddiant paratoadol ar gyfer y gweinidogaethau hyn ei oruchwylio gan Athrofa Padarn Sant, gan ddefnyddio llwybrau dysgu sy'n nodi profiad ac addysg flaenorol. Fel arfer, bydd y llwybrau dysgu yn cynnwys cyfleoedd i ymgymryd â dysgu a myfyrio diwinyddol mewn grŵp dysgu, i ymgymryd â phrentisiaeth mewn Ardal Weinidogaeth, i ddatblygu sgiliau gweinidogaethol yn yr ysgol haf a thros dri penwythnos preswyl, ac i berthyn i 'glostir ffurfiant' i gefnogi twf yng Nghrist. Caiff y sawl sydd wedi eu galw a'u derbyn i'r gweinidogaethau hyn eu trwyddedu a'u apwyntio i wasanaethu mewn Ardal Weinidogaeth gan yr Esgob, a chaiff gweinidogaethau eu adolygu a'u adnewyddu o dan oruchwyliaeth yr Esgob.

formation and training for these ministries is overseen by St Padarn's Institute, using learning pathways that take into account the experience and learning of those for whom they are designed. These learning pathways will normally include opportunities to undertake theological learning and reflection in a learning group, to undertake apprenticeship learning in a Ministry Area, to develop ministry skills at a summer-school and three residential weekends, and to belong to a 'formational cell' to support growth and formation into Christ. Those called and accepted to these ministries are licensed and appointed to serve in Ministry Areas by the Bishop, and ministries are reviewed and renewed under the Bishop's oversight.

Darllenydd

Oddi mewn i'r weinidogaeth a ymddiriedwyd gan Grist i'w Eglwys, gelwir Darllenwyr gan Dduw i fod yn enghreifftiau o gludwyr a dehonglwyr y Gair. Bydd hyn yn golygu arwain addoliad cyhoeddus, pregethu a dysgu'r Gair. Galwad yw i ddarllen a dehongli stori Duw a chenhadaeth Duw i'r byd drwy'r Beibl a thrwy hanes, a thrachefn i ddarllen a dehongli'r byd a'r gymuned y maent yn gweinidogaethu o'u mewn. Yn sgil dirnadaeth a hyfforddiant addas, gall Darllenwyr hefyd arddel gweinidogaeth fel Gweinidog Bugeiliol. Fodd bynnag, gallasai Darllenwyr gyda galwad a'r doniau i arfer trosolwg o'r gwaith bugeiliol mewn cymuned ystyried cynnig eu hunain i'w dirnad ar gyfer y rôl ehangach o Ddiacon. Bydd y rhai a elwir i weinidogaethu fel Darllenwyr yn gallu darparu tystiolaeth o ddoniau ar gyfer y gwaith hwn, megis awydd cryf i ymestyn allan â chariad Duw, a hyfdra a sensitifrwydd priodol wrth gyhoeddi'r Efengyl. megis dawn arbennig am addoli, pregethu ac addysgu, y gallu i ennyn parch pobl eraill, ac ymwybyddiaeth gadarn o draddodiadau ac arferion yr Eglwys.

Reader

Within the ministry entrusted by Christ to his Church, Readers are called by God to be examples of those who are bearers and interpreters of the Word. This will include leading public worship, preaching and teaching the Word. Their call is to read and interpret the story of God and God's mission to the world through Bible and history, and also to read and interpret the world and the community within which they are being called into ministry. With suitable discernment and training, Readers may also exercise a ministry as a Pastoral Minister. However, Readers with a particular calling and gifting to take oversight for pastoral work in a community or area might consider offering themselves for discernment for the wider role of a Deacon. Those called to ministry as a Reader will be able to show evidence of a gifting for this work, such as a flair for worship, preaching and teaching, an ability to retain the respect of others, and a familiarity with the Church's traditions and practices.

Gweinidog Bugeiliol

Oddi mewn i'r weinidogaeth a ymddiriedwyd gan Grist i'w Eglwys, gelwir Gweinidogion Bugeiliol i atgyfnerthu a galluogi arferion bugeiliol o fewn yr eglwys leol, wedi eu gwreiddio yn ei hanfod cydweithredol. Gallasai Gweinidogion Bugeiliol gyda galwad a'r doniau i bregethu ystyried cynnig eu hunain i'w dirnad ar gyfer y rôl ehangach o Ddiacon. Bydd y rhai a elwir i weinidogaethu fel Gweinidogion Bugeiliol yn gallu darparu tystiolaeth o ddoniau ar gyfer y gwaith hwn, megis y gallu i wrando'n ofalus ar sawl lefel, i gadw cyfrinachau, ac i gydlynu gweinidogaethau bugeiliol pobl eraill gyda sensitifrwydd.

Pastoral Minister

Within the ministry entrusted by Christ to his Church, Pastoral Ministers are called to focus and enable pastoral practice within the local church and should be rooted in its collaborative working practice. Pastoral Ministers with a calling and gifting to preach might consider offering themselves for discernment for the wider role of a Deacon. Those called to ministry as a Pastoral Minister will be able to show evidence of a gifting for this work, and ability to listen to, with and for others, to keep confidences, and to coordinate with sensitivity the pastoral ministries of others.

Gweinidog Teulu

Oddi mewn i'r weinidogaeth a ymddiriedwyd gan Grist i'w Eglwys, mae gan y gweinidogion hyn gyfrifoldeb strategol ar gyfer gwaith â Phlant, Ieuenctid a Theuluoedd mewn cyd-destun penodol. Gallant weithio gyda phwyslais arbennig ar blant yn eu harddegau, teuluoedd neu blant o oedrannau penodol. Bydd y rhai a elwir i'r weinidogaeth hon yn gallu darparu tystiolaeth o ddoniau ar gyfer y gwaith hwn, megis empathi a sensitifrwydd wrth ddelio ag anghenion penodol plant a phobl ifanc, y gallu i wneud cysylltiadau rhwng yr Efengyl a bywydau'r bobl y maent yn eu gwasanaethu, a'r ddawn i gydlynu a galluogi rhoddion a brwdfrydedd pobl eraill.

Family Minister

Within the ministry entrusted by Christ to his Church, these ministers have strategic responsibility for Children, Youth and Families work in a particular context. They may work with a particular emphasis on teenagers, families or children of specific ages. Those called to this ministry will be able to show evidence of a gifting for this work, such as empathy and sensitivity in dealing with the particular needs of children and young people, the ability to make connections between the Gospel and the lives of the people they serve, and the facility to coordinate and enable the gifts and enthusiasms of others.

Efengylydd

Oddi mewn i'r weinidogaeth a ymddiriedwyd gan Grist i'w Eglwys, gelwir Efengylyddion i estyn allan at y rhai sydd ag ychydig neu ddim ffydd, gan gynnig cariad Duw mewn gair a gweithred, a chan geisio eu hymgyrffori o fewn cymdeithas yr eglwys. Maent yn rhannu llawer o nodweddion gydag Arloeswyr; ond tra bod Arloeswyr yn bennaf yn ceisio creu cymunedau ac eglwysi, mae Efengylyddion yn bennaf yn ceisio denu pobl at Grist drwy ddefnyddio adnoddau cymunedau ac eglwysi sefydliedig. Bydd y rhai a elwir i'r weinidogaeth hon yn gallu darparu tystiolaeth o ddoniau ar gyfer y gwaith hwn, megis ymrwymiad pendant i fywyd eu heglwys leol, y gallu i weithio y tu mewn a thu hwnt i strwythurau sefydliedig yr eglwys, ac agwedd hawdd a deniadol wrth ymwneud â phobl o bob cefndir.

Evangelist

Within the ministry entrusted by Christ to his Church, Evangelists are called to reach out to those with little or no faith and offer them the love of God in word and action, and try to draw them into the fellowship of the church. They share many characteristics with Pioneers but differ in that pioneers primarily seek to create communities and churches, while Evangelists primarily seek to draw people to Christ using the resources of pre-existing communities and churches. Those called to this ministry will be able to show evidence of a gifting for this work, including an active commitment to the life of their local church, the ability to work both inside and beyond the established structures of the church, and an easy and attractive way of relating to people of all backgrounds.

Gweinidog Arloesol

Oddi mewn i'r weinidogaeth a ymddiriedwyd gan Grist i'w Eglwys, gelwir Gweinidogion Arloesol i ymgysylltu â'r gymuned gan ddatblygu mynegiannau perthnasol o'r eglwys o fewn y diwylliant hwnnw, gan sefydlu'r rhain yn bennaf er budd pobl nad ydynt yn aelodau o unrhyw eglwys hyd yma. Gallasai'r cymunedau dan sylw fod yn ddaearyddol ond gallasant hefyd fod yn seiliedig ar ddemograffeg neu ddiddordeb cyffredin. Maent yn gweithio mewn cydweithrediad â chlerigion a gweinidogion lleyg eraill, a gallasant weithio ochr yn ochr â'r cydweithwyr o fewn Tîm yr Ardal Weinidogaeth. Bydd y rhai a elwir i'r weinidogaeth hon yn gallu darparu tystiolaeth o ddoniau ar gyfer y gwaith hwn, megis y sgiliau i alw ar ymwybyddiaeth eang o fynegiannau eglwysig.

Pioneer Minister

Within the ministry entrusted by Christ to his Church, Pioneer Ministers are called to engage with the community and develop relevant forms of church within this culture, establishing these primarily for the benefit of people who are not yet members of any church. The communities they engage might be geographical but could also be demographic or interest-based. Pioneer Ministers are authorised to preach in public worship and preside at Services of the Word, especially when communicating the lessons of pioneer ministry to the wider church. Pioneers work collegially with clergy and other lay ministers and may work alongside these colleagues within Ministry Area Teams. Those called to this ministry will be able to show evidence of a gifting for this work, such as the skills to call on a wide knowledge of ways of being church.

Gweinidogaethau Ordeiniedig
Ordained Ministries

Mae gweinidogion ordeiniedig yn rhoi eu bywyd cyfan ger bron Duw i'w ddefnyddio er lles yr Eglwys. Trwy gymorth Duw, maent yn derbyn bod yr Ysgrythyr Lân yn cynnwys popeth angenrheidiol i iachawdwriaeth trwy Iesu Grist ein Harglwydd. Trwy gymorth Duw, maent yn credu a chynnal athrawiaethau'r ffydd Gristnogol fel y derbyniodd yr Eglwys yng Nghymru hwy. Trwy gymorth Duw, maent yn ffyddlon a diwyd yn cyhoeddi'r Efengyl ac yn cynorthwyo i weinyddu sacramentau'r Cyfamod Newydd. Trwy gymorth Duw, maent yn ymroi i weddïo ac i astudio'r Ysgrythur Lân, ac yn parhau i gymhwyso eu hunain ar gyfer gweinidogaeth yr Eglwys. Trwy gymorth Duw, maent yn derbyn disgyblaeth yr Eglwys ac yn rhoi dyledus barch i'r rhai a osodwyd mewn awdurdod arnynt. Trwy gymorth Duw, maent yn ymdrechu i hyrwyddo undod, tangnefedd a chariad ymhlith y rhai y maent yn eu gwasanaethu, ac yn arwain trwy anogaeth ac esiampl. Trwy gymorth Duw, maent yn cydweithio â holl bobl Dduw i gynorthwyo'r Eglwys i ddirnad anghenion a phryderon a gobeithion y byd.

Ordained ministers place their whole life at God's disposal through the Church. By the help of God they accept the Holy Scriptures as containing all things necessary for salvation through Jesus Christ our Lord. By the help of God they believe and uphold the doctrines of the Christian faith as the Church in Wales has received them. By the help of God they are faithful and diligent in proclaiming the Gospel and assisting in the celebration of the sacraments of the New Covenant. By the help of God they are diligent in prayer, in studying the Holy Scriptures and in continuing to equip themselves for ministry in the Church. By the help of God they accept the discipline of the Church and give due respect to those in authority. By the help of God they endeavour to promote unity, peace and love among those they serve, and to lead by encouragement and example. By the help of God they will work with all God's people to help the Church discern the needs, concerns and hopes of the world.

Diacon

Oddi mewn i'r weinidogaeth a ymddiriedwyd gan Grist i'w Eglwys, gelwir diaconiaid i gynorthwyo'r esgob a'r offeiriaid ac, mewn gwasanaeth cariadlon, i hysbysu Crist trwy air ac esiampl. Gelwir diaconiaid i wasanaethu Eglwys Dduw ac i ofalu am bawb y maent yn eu gwasanaethu, yn arbennig y tlawd a'r claf a'r sawl sydd mewn angen ac adfyd. Y maent i bregethu Gair Duw ac i gydweithio â'r esgob a'r offeiriaid i arwain addoliad y bobl, yn enwedig yn y Bedydd a'r Cymun Bendigaid.

Deacon

Within the ministry entrusted by Christ to his Church, deacons are called to assist the bishop and priests and through loving service, to make Christ known by word and example. Deacons are called to serve the Church of God and to care for all whom they serve, especially the poor, the sick, the needy and those who are in trouble. They preach the word of God and work with the bishop and priests in leading the worship of the people, especially at Baptism and the Holy Eucharist.

Offeiriad

Oddi mewn i'r weinidogaeth a ymddiriedwyd gan Grist i'w Eglwys, gelwir offeiriaid i gydweithio â'r esgob i sancteiddio ac i addysgu ac i oruchwylio yng nghymuned y ffydd. Gelwir offeiriaid i gofio yn ddiolchgar eu bod yn rhannu'r weinidogaeth hon â'i weinidogaeth ef a fu farw ar y groes. Bydd yn gofyn am aberth a daw dioddefaint yn ei sgîl, ond o'i byw'n ffyddlon, fe ddaw hefyd â llawenydd a tangnefedd.

Priest

Within the ministry entrusted by Christ to his Church, priests are called to work with the bishop to sanctify, to teach and to exercise oversight within the community of faith. Priests are called to remember with thanksgiving that this ministry is a sharing in the ministry of him who died on the cross. It will require sacrifice and bring suffering, but lived faithfully, it will also bring joy and peace.

Esgob

Caiff gweinidogaeth yn yr Eglwys ei rannu gan yr Esgob gyda'r rhai y mae yn dewis i'w trwyddedu a'u hordeinio. Oddi mewn i'r weinidogaeth a ymddiriedwyd gan Grist i'w Eglwys, gelwir esgobion i fod yn ben gweinidogion a bugeiliaid, i wasanaethu pobl Dduw ac i ofalu amdanynt. Gan ddwyn ar gof y Bugail Da, a roes ei fywyd dros ei ddefaid, y maent i garu'r rhai a osodwyd yn eu gofal ac i weddïo drostynt, gan adnabod eu pobl a bod yn adnabyddus iddynt. Y maent i arwain eu pobl mewn gweddi a mawl, a llywyddu yn y Cymun Bendigaid. Y maent i fedyddio a chonffyrmio, i faddau pechodau ac i fendithio, gan faethu pobl Dduw ym mywyd yr Ysbryd a'u harwain ar hyd llwybrau sancteiddrwydd. Y maent i ddirnad a meithrin doniau'r Ysbryd ym mhawb sy'n dilyn Crist, a'u comisiynu i weinidogaethu yn ei enw ef. Y maent i ordeinio diaconiaid ac offeriaid, ac i gymryd rhan yn ordeinio eu cyd-esgobion. Fel pen bugeiliaid, y mae'n ddyletswydd arnynt gadw undod yr Eglwys, llefaru yn enw Duw a dehongli efengyl iachawdwriaeth. Ynghyd â'u clerigion a'r bobl, y maent i hyrwyddo cenhadaeth yr Eglwys ac i ofalu am bawb, yn enwedig y tlawd, y digartref a'r anghenus. Gan ddilyn esiampl yr Apostolion, y maent i gyhoeddi'r efengyl, i lefaru'r gwirionedd yn ddewr ac i weithio dros gyfiawnder a heddwch. Y maent i fod yn drugarog, ond yn gadarn; y maent i ddisgyblu, ond gyda thrugaredd.

Bishop

Ministry in the Church is shared by the Bishop with those they choose to license and ordain. Within the ministry entrusted by Christ to his Church, bishops are called to be chief pastors and shepherds, serving and caring for the people of God. Mindful of the Good Shepherd, who laid down his life for his sheep, they are to love and pray for those committed to their charge, knowing their people and being known by them. They are to lead their people in prayer and praise and to preside at the Holy Eucharist. They are to baptise and confirm, absolve and bless, nurturing God's people in the life of the Spirit, and leading them in the way of holiness. They are to nurture and discern the gifts of the Spirit in all who follow Christ, commissioning them to minister in his name. They are to ordain deacons and priests and share in the ordination of their fellow bishops. As chief pastors, it is their duty to maintain the unity of the Church, speaking in the name of God, and interpreting the gospel of salvation. Together with their clergy and people they are to promote the Church's mission and have a special care for all, and especially the poor, the outcast and the needy. Following the example of the Apostles, they are to proclaim the Gospel, boldly speak the truth, and work for justice and peace. They are to be merciful, but with firmness, and to minister discipline but with mercy.

Tŷ Deiniol, Clos y Gadeirlan,
Bangor, Gwynedd LL57 1RL
01248 354 999
bangor@eglwysyngnghymru.org.uk
bangor.eglwysyngnghymru.org.uk

Tŷ Deiniol, Cathedral Close,
Bangor, Gwynedd LL57 1RL
01248 354 999
bangor@churchinwales.org.uk
bangor.churchinwales.org.uk

Esgobaeth Bangor
The Diocese of Bangor

Yr Eglwys yng Nghymru
The Church in Wales